Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

1. Dechrau

1.6 Statws elusennol

Beth yw elusen?

Mae Deddf Elusennau 2006 yn diffinio elusen fel mudiad sy'n bodoli:

- ar gyfer amcanion elusennol yn unig
- ar gyfer lles cyhoeddus

Cyfunodd y Ddeddf y gyfraith achos cyfredol a chyflwynodd 13 amcan elusennol:

- ataliad neu ryddhad tlodi
- dyrchafiad addysg
- dyrchafiad crefydd
- dyrchafiad iechyd neu achub bywydau
- dyrchafiad dinasyddiaeth a datblygiad cymunedol
- dyrchafiad y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- dyrchafiad chwaraeon amatur
- dyrchafiad hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi, neu hyrwyddo harmoni hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- dyrchafiad diogelu neu welliant amgylchfydol
- rhyddhad y rhai anghenus oherwydd ieuenctid, oedran, afiechyd, anabledd, caledi ariannol neu anfantais arall.
- dyrchafiad lles anifeiliaid
- hyrwyddo effeithiolrwydd lluoedd arfog y Goron: neu effeithiolrwydd y gwasanaethau heddlu, tan ac achub neu wasanaeth ambiwlans, a;

- unrhyw bwrpas elusennol cyfreithiol arall.

Mae'r rhestr yn ymdrin â mwyafrif yr amcanion sydd eisoes yn elusennol. Mae'r categori olaf yn golygu fod popeth sy'n elusennol yn gynwysedig, ac mae'n caniatáu'r Llysoedd i gyflwyno amcanion elusennol eraill wrth iddynt godi.

Rhaid i elusen ddilyn gweithgareddau sy'n hybu'r prif amcanion yn unig, nid ar gyfer elw preifat.

Yn ogystal â dangos bod yr elusen yn dilyn un neu fwy o'r amcanion elusennol yma, rhaid i bob elusen barchu cyfarwyddyd y Comisiwn Elusen a dangos sut y bydd yn traddodi lles cyhoeddus.

Pa amodau eraill sydd?

- Rhaid i bob amcan a bwriad a osodir yn nogfen lywodraethol yr elusen fod yn gyfan gwbl elusennol. Dyma brif amcanion yr elusen.
- Rhaid i elusen ddilyn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ei brif amcanion.
- Gall elusen ddilyn gweithgareddau ymgyrch a pholiticaidd mewn modd cyfyngedig, a dim ond os yw'n ymestyn ei amcanion elusennol.
- Ni all elusen weithredu ar sail sylweddol neu reolaidd drwy godi arian yn unig - ond gall weithredu yng nghwrs cynnal prif amcan yr elusen. Rhaid i ddogfen lywodraethol yr elusen gael cymal diddymiad i sicrhau os daw'r elusen i ben, bydd yr asedau sy'n weddill yn pasio ymlaen i fudiad arall sy'n ymroddi at amcanion elusennol tebyg.
- Gall yr elusen gymhwyso'i asedau i hyrwyddo'r amcanion yn unig, ac ni all eu dosbarthu er lles personol yr ymddiriedolwyr (os na awdurdodwyd hynny gan y ddogfen lywodraethol neu'r Comisiwn Elusennau), neu elw preifat unrhyw drydydd parti.

Oes rhaid i elusen gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau?

Yn gyfreithiol, mae'n ofynnol i elusen gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau os oes ganddo:

- incwm blynyddol o £5000 neu fwy.

Does dim rhaid i elusennau llai dan y swm yma gofrestru.

Os nad yw elusen wedi'i chofrestru, nid yw'n llai o elusen, rhaid iddo lynu wrth gyfraith elusennol a bod o dan reolaeth y Comisiwn Elusennau.

Mae trefniant parthed elusennau a eithriwyd a rhai eithriedig yn newid:

- *Elusennau a eithriwyd* - elusennau a arolygir gan Reolydd heblaw'r Comisiwn Elusennau (e.e. yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol neu'r Gorfforaeth Letya)
- *Elusennau eithriedig* - dros y blynyddoedd eithriwyd rhai elusennau rhag cofrestru (e.e. rhai elusennau crefyddol, y Sgowtiaid a'r Geidiaid, a rhai elusennau'r lluoedd arfog)

Fodd bynnag, mae Deddf Elusennau 2006 wedi cyflwyno rhaglen raddol yn gofyn i elusennau a eithriwyd sydd heb Reolydd yn barod, a llawer o elusennau eithriedig i gofrestru. Bydd y trefniant yma yn ymdrin â phob elusen cymwys gydag incwm o £100,000 neu fwy (er bydd rhai is na'r swm yma yn atebol i ddeddf elusen ac o dan reolaeth y Comisiwn Elusennau).

Beth yw manteision bod yn elusen gofrestredig?

- Mae'n dda ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus - gwelir cofrestru fel arwydd o ddibynadwyaeth a'ch bod yn rhoi budd i'r cyhoedd.
- Mae rhai cyrff ariannu a rhoddwyr preifat yn rhoi i elusennau cofrestredig yn unig.
- Rhyddhad gorfodol o 80% ar drethi busnes - gall rhai awdurdodau lleol roi cymaint â 100%.
- Rhyddhad treth - e.e. treth incwm, treth gorfforaeth, treth enillion cyfalaf, treth stamp a chonsesiwn TAW.
- Gall fod yn haws i ddenu gwirfoddolwyr.
- medru adennill treth a dalwyd gan roddwyr sy'n cyfrannu drwy GiftAid, cyfamodau neu ddidynnu o gyflog.

Pam fod rhaid i elusennau gofrestru?

Am ei fod yn ofynnol gan gyfraith elusen i elusennau gael eu sefydlu er lles y cyhoedd (h.y. y corff llywodraethol), ac felly rhaid bod yn atebol yn gyhoeddus. Maen nhw'n gyfrifol am arian ac eiddo a gyfrannwyd gan eraill ar gyfer amcanion penodol elusennol, ac mae elusennau yn mwynhau buddion cyllidol sy'n effeithio ar gronfeydd cyhoeddus megis rhyddhad treth ac ati.

Beth am fudiadau sydd ag amcanion rhannol elusennol, ond ddim yn gyfan gwbl?

Os yw'r mudiad eisiau statws elusennol, rhaid rhoi terfyn ar weithgareddau sydd ddim yn elusennol. Felly, rhaid penderfynu os yw buddion statws elusennol yn werth yr ymdrech, neu gellir dechrau mudiad ar wahân i gyflawni'r gweithgareddau yma (e.e. masnachu).

Beth os yw elusen eisiau masnachu i godi arian at ei gwaith?
Gall elusen fasnachu os yw'r fasnach hynny yn hyrwyddo neu'n ategol i'w wrthrychau. Dylid cyflawni unrhyw fasnach sydd ddim yn elusennol (mae yna eithriad ar gyfer masnach ar raddfa fach) drwy gwmni masnach ar wahân. Gellir pasio nôl unrhyw elw mewn modd effeithiol o ran treth.

Pa fath o strwythur cyfreithiol y dylai elusen gael?

Mae strwythur cyfreithiol elusen yn hollol wahanol i'w statws elusennol. Gall elusen fod yn fudiad anghorfforedig, yn gwmni cyfyngedig drwy warant neu yn ymddiriedolaeth.

Mae Deddf Elusennau 2006 wedi cyflwyno strwythur cyfreithiol newydd, Y 'Mudiad Elusennol Corfforedig' (CIO), a fydd ar gael o ganol 2010. Dyma strwythur cwmni a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer elusennau ac a reolir gan y Comisiwn Elusennau yn unig, ac felly'n gwaredu'r angen am adrodd deuol i'r Comisiwn a Thŷ'r Cwmnïau.

Sut allwn ni sicrhau fod ein dogfen lywodraethol yn dderbyniol gan y Comisiwn Elusennau?

Fel cyfarwyddyd, gweler model y Comisiwn Elusennau ynghylch dogfennau:

- Memorandum and Articles of Association for a Charitable Company (GD1)
- Declaration of Trust for a Charitable Trust (GD2)
- Constitution for a Charitable Unincorporated Association (GD3)

Mae Cymdeithas Cyfraith Elusennol yn cynhyrchu model syml ynghylch dogfennau, a derbynnir y cyfan gan y Comisiwn Elusennau.

Mae rhai elusennau cenedlaethol mawr yn cynhyrchu dogfennau safonol a gymeradwyir gan y Comisiwn Elusennau a ellir eu defnyddio gan fudiadau sy'n gysylltiedig â'r elusen honno. Gall y Comisiwn Elusennau ddarparu rhestr o'r mudiadau yma.

Rydyn ni eisiau bod yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig; pa un ddylwn ni wneud gyntaf?

Ar hyn o bryd, rhaid i bob cwmni gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, a rhaid i elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn Elusennol yn medru cofrestru mudiad sydd ddim yn bodoli, felly rhaid cofrestru cwmni cyfyngedig drwy warant yn gyntaf - *ond sicrhewch fod eich dogfen lywodraethol yn addas ar gyfer statws elusennol.*

DS - Pan fydd CIO ar gael, bydd raid i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yn unig os ddewiswch y strwythur yma

Pan fyddwch yn barod i gofrestru:

Cysylltwch â'r Comisiwn Elusennau a gofynnwch am Becyn Cofrestru (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg), neu lawr lwythwch o'r wefan.

Mynd i'r afael a'r jargon

Gwrthrychau elusennol - dyma derm arall am eich amcanion a bwriadau; rydych yn gweithredu o fewn y rhain.

Ymddiriedolwyr - 'pobl sydd â rheolaeth gyffredinol o weinyddiaeth elusen (adran 97 o'r Ddeddf Elusennau 1993). Mae'r rhain yn nodweddiadol yn aelodau llawn o'r corff llywodraethol aelir ei alw'n amrywiol enwau, gan gynnwys: *ymddiriedolwyr a rheolaeth, aelodau pwyllgor, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr.*

Dogfen Lywodraethol - unrhyw ddogfen sy'n gosod allan amcanion yr elusen, a sut y'i gweinyddir. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm cymdeithasiad, a llai nodweddiadol, ewyllys, trosglwyddiad, Siarter Brenhinol, neu Gynllun Comisiynwyr Elusennol.

Atebolrwydd cyfyngedig - yn y mwyafrif o achosion diogelir y Cyfarwyddwyr (aelodau'r corff llywodraethol) rhag atebolrwydd personol, ac mae'r cwmni yn atebol am ddyledion yn unig hyd at swm yr asedau sydd ar gael, sy'n cynnwys swm taliadau gwarant yr aelodau (gweler isod).

Cwmni cyfyngedig drwy warant - mae aelodau'r cwmni yn gwarantu i dalu swm penodedig os yw cwmni yn galw'r warant neu'n dirwyn i ben, fel arfer swm rhwng £1 a £10. Yn annhebyg i gwmni a gyfyngir gan gyfranddaliadau, ni ddosbarthir elw i'r aelodau, ond gallant bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol. Dyma strwythur safonol y cwmni a ddefnyddir yn y sector gwirfoddol ac elusennol.

Mudiad Elusennol Corfforedig - Bydd y CIO yn gorff corfforedig gyda Chyfansoddiad, yn hytrach na Memorandwm ac Erthyglau Cwmni a ddefnyddir gan strwythurau cwmniol eraill. Rhaid i'r brif wyddfa fod yn Lloegr neu Gymru, a rhaid iddo gael un neu fwy o aelodau. Bydd aelodau'r CIO nail;; ai'n atebol i gyfrannu hyd at swm penodol i asedau'r CIO os y'i terfynir (megis cwmni a gyfyngir trwy warant), neu ddim yn atebol i wneud y fath gyfraniad.

Gall CIO gawl corff aelodau ar wahân i ymddiriedolwyr yr elusen (CIO mudiadol) neu gall yr ymddiriedolwyr a'r aelodau fod yr un bobl (CIO sylfaenol). Bydd modelau'r cyfansoddiadau yma ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau pan lansir y CIO yn ffurfiol o Wanwyn 2012.

Mudiad anghorfforedig - grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd ar gyfer amcan cyffredin ac sy'n cytuno i ymglymu wrth set o reolau a elwir yn Gyfansoddiad. Nid ystyrir y fath fudiadau yn hanfod cyfreithiol ar wahân ac felly ni cheir atebolrwydd cyfyngedig.

Ymddiriedolaeth - Mae ymddiriedolaeth yn berthynas cyfreithiol sy'n codi ble roddir eiddo i berson neu bersonau a elwir yn ymddiriedolwyr. Mae'r ymddiriedolwyr hyn yn dal yr eiddo er lles y bobl eraill a elwir yn fuddiolwyr. Nodir buddion y bobl yma mewn dogfen ymddiriedolaeth sy'n creu'r ymddiriedolaeth. Nid ystyrir ymddiriedolaethau yn hanfod cyfreithiol ar wahân ac felly ni cheir atebolrwydd cyfyngedig.

Cyngor pellach

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
Ffon: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Tŷ'r Cwmnïau
Ffon: 0303 1234 500
www.companies-house.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:22/11/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk